END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

Tlodi Plant: Maniffesto tuag at Ddileu

Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Cydgysylltir Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru gan Plant yng Nghymru

Children in Wales
Plant yng Nghymru

Aelodau'r Grŵp Llywio RhDTPC

Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn glymblaid o gonsyrn sy'n canolbwyntio ar ddileu tlodi ymysg plant yng Nghymru, ac sy'n cael ei gydlynu a'i reoli o ddydd i ddydd gan Plant yng Nghymru. Mae'i grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolaeth o bob cwr o'r sectorau gwirfoddol a statudol, ac mae gan y Rhwydwaith aelodaeth gefnogol gynyddol yn deillio o drawstoriad eang o asiantaethau.

Mae Aelodau'r Grŵp Llywio yn cynnwys:

Barnardo's Cymru
Plant yng Nghymru
Achub y Plant Cymru
NEA Cymru
Gweithredu dros Blant
Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant Cymru
Cyngor ar Bopeth
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Oxfam Cymru
Shelter Cymru
Ymddiriedolaeth Frank Buttle
Fairbridge Cymru
Llais Defnyddwyr Cymru

Sylwedyddion

Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Uned Cefnogi Partneriaethau
TUC Cymru

Cydgysylltir Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru gan
Plant yng Nghymru, 25 Plas Winsor, Caerdydd, CF10 3BZ
Ffôn: 029 2034 2434, E-bost: info@childreninwales.org.uk
www.endchildpovertycymru.org.uk
Tachwedd 2010

Datblygiadau hyd yn hyn

Mae cynghrair Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn croesawu cyflwyniad y Dyletswydd Tlodi Plant o dan y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae Strategaeth a Chynllun Cyflwyno Tlodi Plant drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddeilliodd o hynny yn cydnabod y problemau y mae'r Rhwydwaith wedi bod yn eu codi fel meysydd o bryder dros sawl blwyddyn. Nodwyd y gwendidau hyn hefyd yn y cylch diwethaf o Arsylwadau Cloi y Cenhedloedd Unedig yn 2008. Rydym yn falch bod ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Arsylwadau Cloi'r Cenhedloedd Unedig ar ffurf eu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn cynnwys mynd i'r afael â thlodi plant fel blaenoriaeth genedlaethol. Mae cynnydd mewn perthynas â hawliau Arfaethedig y Mesur Plant a Phobl Ifanc hefyd yr un modd galonogol.

Credwn bod rhaid ategu'r rhaglen weithredu ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru gyda Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (UNCRC) a bod cyflwyniad yr agenda hawliau plant yng Nghymru yn allweddol i lwyddiant mynd i'r afael â thlodi plant.

Ond rydym yn parhau'n bryderus y bydd effaith yr Adolygiad Cynhwysfawr ar Wariant diweddar yn fygythiad difrifol i weithrediad y Strategaeth a Chynllun Cyflwyno Tlodi Plant ar lefel leol yng Nghymru. Er ein bod yn cydnabod bod nifer o'r galwadau yn y Maniffesto hwn yn adlewyrchu blaenoriaethau'r weinyddiaeth Gymreig gyfredol, mae nifer o'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth a Chynllun Cyflwyno Tlodi Plant drafft eto i'w gwireddu'n llawn, neu maent mewn perygl oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol a'r sialensau pellach sydd yn ein wynebu. Oherwydd hynny mae'r Rhwydwaith yn dymuno amlygu'r meysydd y dylid canolbwyntio fwyaf arnynt.

Mae'r Maniffesto hwn, a ddatblygwyd gan gynghrair Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn amlinellu'r rhaglen weithredu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol nesaf Cymru.

8 Blaenoriaethau Cyffredin

Rydym yn Disgwyl i Lywodraeth Nesaf y Cynulliad Ymrwymo:

1. Cyflwyno ar yr addewid traws bleidiol i ddileu tlodi plant erbyn 2020 trwy fframwaith polisi cydlynus wedi'i gefnogi gan adnoddau priodol.

2. Mynd i'r afael â'r bwlch gweithredu rhwng polisi a chyflwyniad.

3. Sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i raglenni a gwasanaethau cenedlaethol sydd wedi'u gwerthuso'n effeithiol ac sydd yn cyflwyno canlyniadau cadarnhaol i'n plant tlotaf gan eu diogelu a'u cryfhau.

4. Sicrhau bod dyletswyddau cyfredol cyrff sector cyhoeddus yn destun gweithdrefnau craffu cadarn i sicrhau cyflwyniad rhwymedigaethau tlodi plant.

5. Gweithio gyda phob sector, yn cynnwys cyflogwyr, yn y frwydr genedlaethol yn erbyn tlodi plant.

6. Sicrhau bod pob polisi, gwasanaeth a rhaglen genedlaethol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno o fewn fframwaith hawliau plant

7. Ymgysylltu'n effeithiol ac yn gyson gyda Llywodraeth y DU ar bob lefel ynglŷn â materion tlodi plant nad ydynt wedi'u datganoli

8. Darparu llywodraeth agored, tryloyw ac atebol i Gymru sydd yn sicrhau cyfle cyfartal ac sydd yn ceisio rhyddhau pob plentyn o fywyd o dlodi

Dylid ategu Rhaglen Weithredu bob amser gyda Chonfensiwn Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig (UNCRC) a dylai gymryd i ystyriaeth Arsylwadau Cloi y Cenhedloedd Unedig

Mae Tlodi Plant yn Ymyriad ar Hawliau Dynol

Cynnwys

Mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru:

Tai a Digartrefedd: HAWL i gartref gweddus, Tai a Digartrefedd	Tud 6
Iechyd a Ffyniant: HAWL i fod yn rhydd o salwch	Tud 7
Trafnidiaeth:HAWL i fynediad a symud, Trafnidiaeth	Tud 8
Incwm a Chyflogaeth: HAWL i incwm a chyfleoedd cyflogaeth	Tud 9
Cynhwysiant Ariannol: HAWL i safon byw gweddus	Tud 10
Gwledigrwydd: HAWL i beidio â bod dan anfantais oherwydd daearyddiaeth	Tud 11
Addysg: HAWL i addysg o ansawdd da,	Tud 12
Tlodi Tanwydd: HAWL i gartref cynnes	Tud 13
Cefnogaeth Teulu a Rhianta: HAWL i gefnogaeth	Tud 14
Diogelu ac Amddiffyn: HAWL i fod yn ddiogel	Tud 15
Chwarae: HAWL i chwarae	Tud 16
Blynyddoedd Cynnar: HAWL i gael y cychwyn gorau mewn bywyd	Tud 17
Monitro a gwerthuso	Tud 18

Iechyd Meddwl/CAMHS	- cefnogi galwadau Briff Swyddogion Polisi Corff Anllywodraethol
NEETS	- cefnogi galwadau Briff Swyddogion Polisi Corff Anllywodraethol
Plant Anabl	- cefnogi galwadau Maniffesto ymgyrch DCMW
Hawliau Plant	- cefnogi galwadau Briff Swyddogion Polisi Corff Anllywodraethol

Tai a Digartrefedd

Galwad cyffredinol: mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr HAWL i gartref gweddus.

1. Polisi cymdeithasol integredig a gwario i arbed
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau ei fod yn integreiddio ei weithredu ar ddigartrefedd yn fwy effeithiol gyda rhoi terfyn ar dlodi plant a gwella cyfleoedd bywyd. Bydd cartrefi gweddus a chynaliadwy yn golygu bod gan unigolion fwy o gyfleoedd i gael gafael ar ac i gynnal cyflogaeth, cael gwell canlyniadau iechyd a lefel gwell o les cymdeithasol. Bydd buddsoddi mewn cartrefi gweddus a delio yn effeithiol gyda digartrefedd yn arbed adnoddau mewn meysydd polisi eraill fel addysg ac iechyd, a bydd yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau polisi yn ymwneud â chwarae ac amgylchedd plant.

2. Ymagwedd newydd tuag at ddigartrefedd
Dylai Cymru ddatblygu fframwaith digartrefedd statudol sydd yn sicrhau bod pobl sydd yn wynebu neu sydd yn dioddef digartrefedd yn gallu cael gafael ar gyngor a chefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod digon o sylw yn cael ei roi i wybodaeth ataliol am dai fel rhan o'r cwricwlwm ysgol.

3. Buddsoddi mewn tai gweddus
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod buddsoddiad mewn cyflenwad tai fforddiadwy yn flaenoriaeth llawer uwch. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwell defnydd o'r stoc tai cyfredol, fel defnyddio cartrefi gwag mewn cymunedau a sicrhau bod tai newydd sydd yn cael eu hadeiladu yn parhau'n fforddiadwy i deuluoedd ar incwm isel yn y dyfodol.

Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i flaenoriaethu gweithredu o gwmpas teuluoedd sydd yn byw mewn tai cymdeithasol lle mae tlodi plant a diffyg gweithgarwch economaidd dan sylw, ond dylai hefyd ganolbwyntio ar wella a diwygio'r sector rhent preifat, sydd yn brif ffynhonnell tai i nifer cynyddol o bobl.

Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau gyda'i ymrwymiad cadarnhaol i leihau'r nifer o deuluoedd sydd â phlant yn byw mewn llety dros dro neu orlawn.

4. Lwfans Tai Lleol, Budd-dal Tai a diwygio Lles
Mae gweinyddiaeth a hawl i Fudd-dal Tai yn parhau'n brif reswm dros ddigartrefedd ymysg teuluoedd a phobl ifanc 16+ oed. Fel rhan o'r system lles yn gyffredinol mae angen i fudd-dal tai alluogi pawb i gael gafael ar a chadw cartrefi gweddus. Gallai'r toriadau a gyhoeddwyd i Lwfans Tai Lleol arwain at gynnydd mewn digartrefedd, angen tai a thlodi ymysg nifer o deuluoedd yng Nghymru. Er nad yw lles yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli, dylai Aelodau Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad wneud popeth o fewn eu gallu i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU ar y pwnc hwn. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau ei fod yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru i sicrhau bod y bobl sydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn yn derbyn cefnogaeth.

Iechyd a Ffyniant

Galwad cyffredinol: Mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr HAWL i fod yn rhydd o salwch

1. Mynd i'r afael ag anghyfartaleddau iechyd
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer y blaenoriaethau sydd yn Strategaeth Anghyfartaleddau Iechyd Cymru 2010 (a amlinellir ar hyn o bryd yn Ein Dyfodol Iachach) a dylai sicrhau hefyd eu bod yn cael eu gweithredu. Bydd hyn yn allweddol i liniaru effeithiau tlodi. Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn galw am gydnabyddiaeth na ellir mynd i'r afael ag anghyfartaleddau iechyd ar ei ben ei hun, a rhaid datblygu polisi a ffrydiau cyllido trwy fentrau adfywio fel yr ardaloedd adfywio strategol. Bydd hyn yn sicrhau bod cyflwyniad gwasanaethau yn digwydd mewn modd holistaidd ac nad yw'n delio gyda phroblemau yn unigol.

2. Strategaeth Diogelu Plant yng Nghymru
Mae effaith trafnidiaeth ar anghyfartaleddau iechyd yn arwyddocaol mewn perthynas â marwolaethau ac anafiadau i blant mewn damweiniau ar y ffyrdd. Mae tystiolaeth yn dangos bod graddfa a difrifoldeb damweiniau yn cynyddu'n sylweddol ymysg plant o gefndiroedd cymdeithasol economaidd is. Dylid mynd i'r afael â'r anghyfartaledd iechyd hwn gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddamweiniau yn y cartref, damweiniau ar y ffyrdd a boddi. Dylai Llywodraeth y Cynulliad felly ddatblygu a gweithredu Strategaeth Diogelwch Plant penodol ar gyfer Cymru fel cynllun cadarn i weithredu newidiadau ar draws adrannau a thrwy gyflwyniad lleol er mwyn mynd i'r afael â'r anghyfartaledd hwn.

3. Prydau bwyd ysgol: Defnydd a Maeth
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod pob ysgol yn diwallu'r safonau maeth a osodwyd ar gyfer cinio ysgol a bod gwybodaeth a chyngor effeithiol yn cael ei ddarparu ynglŷn â bwyta'n iach a hawl i Ginio Ysgol am Ddim. Dylai Llywodraeth y Cynulliad nodi'r cynnydd a wnaethpwyd gan Lywodraeth yr Alban o ran ymestyn eu gwasanaeth cinio ysgol am ddim i ardaloedd difreintiedig er mwyn lleihau'r stigma yn gysylltiedig â threfniadau cyfredol, cynyddu'r nifer sydd yn derbyn cinio am ddim a helpu i sicrhau bod plant yn derbyn un pryd iach y dydd o leiaf.

4. Cyfnod o'r gwaith gyda thâl i rieni
Dylai Llywodraeth y Cynulliad hyrwyddo pwysigrwydd cyfnod o'r gwaith gyda thâl i rieni sydd yn gysylltiedig gyda gwell iechyd ymysg mamau a phlant, llai o iselder ymysg mamau, cyfraddau is o fabanod yn marw, llai o fabanod pwysau isel yn cael eu geni, mwy o fwydo o'r fron a rhagor o ddefnydd o ofal iechyd ataliol. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cyfnod o'r gwaith gyda thâl i rieni yn ystod blwyddyn gyntaf baban yn ogystal ag argaeledd gofal plant o ansawdd da a chyflogaeth hyblyg wedi hynny.

5. Rhaglenni hybu iechyd a rhaglenni atal
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cael gafael ar raglenni hybu iechyd ac atal. Dylai rhaglen gyffredinol y plentyn iach fod ar gael fel blaenoriaeth i bob ymwelydd iechyd yn ogystal â sicrhau'r gallu i'w gyflwyno. Dylai hyn arwain at welliannau mewn cyfraddau bwydo o'r fron, gostyngiad mewn damweiniau i blant yn y cartref, nodi pryderon am ddiogelwch plant yn gynharach, mwy o gefnogaeth i iechyd meddwl mamau a chyfeirio yn gynharach at ffynonellau eraill o gymorth a chyngor. Byddem hefyd yn cefnogi ymestyn dosbarthiadau cyn geni gan ddefnyddio fformat heb stigma sydd wedi'i ddefnyddio'n helaeth ac sydd yn hygyrch i bawb.

Trafnidiaeth

Galwad cyffredinol: Mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr HAWL i fynediad a symud

1. Gwell mynediad a hyblygrwydd
Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i weithio gyda phartneriaid lleol i sicrhau bod digon o fuddsoddi mewn darpariaeth trafnidiaeth cyhoeddus gyda rhwydwaith o ansawdd, amlder uchel mewn ardaloedd trefol a sicrhau bod gwasanaethau'n integredig. Mae angen gwell prif wasanaeth bysiau, a gwasanaeth amlach hefyd gyda'r ddarpariaeth yn ymateb i'r galw mewn ardaloedd gwledig ac mwy anghysbell. Mae diffyg trafnidiaeth addas yn parhau'n rhwystr mawr i gyflogaeth i nifer o rieni – yn enwedig lle mae'n rhaid iddynt gynnwys gadael a chasglu eu plant o gyfleusterau gofal plant yn eu diwrnod gwaith. Dylai trafnidiaeth cyhoeddus fod yn gwbl hygyrch i blant anabl.

2. Mynd i'r afael â chost a fforddiadwyaeth
Dylai Llywodraeth y Cynulliad roi ystyriaeth ddyledus i gyflwyniad cerdyn disgownt trafnidiaeth cenedlaethol Cymru gyfan i bobl ifanc rhwng 18-21 oed a fyddai'n gwarantu 1/3 o leiaf i ffwrdd oddi ar bris tocynnau oedolion ar drafnidiaeth cyhoeddus. Byddai hyn yn gymorth i bobl ifanc wrth iddynt chwilio am waith, hyfforddiant ac addysg.

3. Dewisiadau trafnidiaeth ar wahân i gar
Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda phartneriaid lleol i wella'r amgylchedd i gerddwyr a seiclwyr, yn cynnwys rhagor o ddefnydd o gyfyngiadau cyflymdra o 20mya neu lai a llwybrau seiclo o ansawdd.

4. Llwybrau diogel i'r ysgol
Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i gefnogi rhwydweithiau llwybrau diogel i'r ysgol yng Nghymru a sicrhau bod y cynllun yn cael ei farchnata'n gywir a bod digon o gyngor a gwybodaeth ar gael.

5. Gwell diogelwch
Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i weithio gyda phartneriaid lleol i gynyddu mesurau diogelwch i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel wrth deithio bob amser. Mae hyn mewn ymateb i ddata sydd yn dangos mai plant a phobl ifanc yw'r mwyaf tebygol o fod yn ddioddefwyr trosedd.

Incwm a Chyflogaeth

Galwad cyffredinol: Mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr HAWL i gyfleoedd incwm a chyflogaeth

1. Buddsoddi mewn pobl ifanc ar gyfer y dyfodol
Rhaid i dargedu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) barhau i fod yn o brif flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad yn ystod tymor nesaf y Cynulliad. Trwy gefnogi pobl ifanc ar yr adeg cywir a gyda'r ymyriadau cywir a chynnar gall gwahaniaeth bychan nawr drawsnewid rhagolygon unigolyn ar gyfer eu holl yrfa waith ac ar gyfer economi Cymru. Rhaid i gefnogaeth gydnabod yr anawsterau ychwanegol cymhleth a'r rhwystrau ariannol y mae'n rhaid i nifer o bobl ifanc eu goresgyn er mwyn ymgysylltu gydag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

2. Cefnogi polisïau a rhaglenni sydd eisoes yn bodoli
Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i fuddsoddi yn y fframwaith polisi cyfredol a ddatblygwyd i wella rhagolygon i bobl ifanc, a'u grymuso i gyflawni eu huchelgais ac yn holl bwysig, darparu cefnogaeth i'r rhai sydd yn gyson yn wynebu'r sialensau caletaf. Mae'r rhain yn cynnwys Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, Ymestyn Hawl a'r Llwybr Dysgu 14-19 oed.

3. Mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflogaeth
Y prif resymau dros dlodi plant yw teuluoedd heb waith a thlodi incwm. Rhaid i fesurau i greu swyddi a chreu gwaith fynd law yn llaw gyda mesurau sydd yn lleihau'r rhwystrau mwyaf heriol i gyflogaeth. Mae gofal plant fforddiadwy, anabledd neu salwch sydd yn cyfyngu ar fywyd, a bod yn rhiant unigol yn parhau yn sialensau cyson i gyflogaeth, yn enwedig mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn aml mae angen gwaith holistaidd hir dymor i gynorthwyo rhieni a phobl ifanc bregus i bwynt lle y mae ganddynt yr hyder i ymgysylltu gydag addysg a hyfforddiant, ac i anelu at gyflogaeth nad yw'n gyflogaeth cyflog isel.

4. Mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith
Dylai cyflogaeth gael ei ystyried yn llwybr allan o dlodi ac eto gyda dros hanner yr holl blant sydd mewn tlodi yn byw mewn cartrefi gydag o leiaf un oedolyn mewn gwaith, mae nifer o deuluoedd yn dibynnu ar fudd-daliadau mewn gwaith y wladwriaeth i ychwanegu at eu cyflog isel. Dylai Llywodraeth y Cynulliad felly ddilyn pob llwybr i geisio mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith a datblygu safon isafswm incwm cenedlaethol ar gyfer Cymru.

5. Mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhyw
Un o'r prif resymau dros dlodi plant yw'r berthynas rhwng menywod mewn gwaith, eu plant a chyflogau isel. Rhaid i'r mater o ddelio gyda'r bwlch cyflog rhyw a herio diwylliant y gweithle sydd yn parhau gyda gwahaniaethu ar sail rhyw fod yn brif flaenoriaeth i oresgyn tlodi plant yng Nghymru.

6. Trefniadau gwaith hyblyg
Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i weithio gyda chyflogwyr i sicrhau bod trefniadau gwaith hyblyg ar gael i gyflogeionnewydd ac i gyflogeioncyfredol, a dylai'r hawl i ofyn am drefniadau o'r fath o dan ddeddfwriaeth statudol gael ei gynnal.

Cynhwysiant Ariannol

Galwad cyffredinol: Mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr HAWL i safon byw gweddus

1. Cefnogi, cydlynu a thargedu rhaglenni gwneud y mwyaf o incwm
Mae gwneud y mwyaf o incwm yn elfen holl bwysig o'r agenda tlodi plant ac mae'n helpu i leihau'r diffyg yn y nifer sydd yn manteisio ar yr amrediad llawn o fudd-daliadau, credydau treth ac ad-daliadau y mae gan nifer o deuluoedd yr hawl i'w derbyn. Mae gwerth y budd-daliadau nad ydynt yn cael eu hawlio yn sylweddol a gall hybu incwm yn y modd hwn gael effaith sylweddol ar arian y teulu.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyllido nifer o raglenni gwneud y mwyaf o incwm a byddem yn annog y Llywodraeth i barhau i weithio i wella'r modd y mae'r gwaith hwn yn cael ei dargedu a'i gydlynu. Byddai cysylltu'r gwaith hwn gydag addysg ariannol hefyd yn helpu i ddarparu gwasanaeth mwy holistaidd. Bydd hyn yn helpu pobl i ddeall y system budd-daliadau, sydd yn neilltuol o bwysig pan fo polisi Llywodraeth y DU yn golygu y bydd hawliau yn newid ac incwm efallai yn gostwng; bydd hefyd yn darparu sgiliau cyllidebu allweddol i bobl i'w helpu i ymdopi ar incwm cyfyngedig iawn.

2. Cael gafael ar gefnogaeth trwy wasanaethau cyngor ariannol/dyled (atal)
Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i weld gwerth a phwysigrwydd gwasanaethau cynghori arbenigol sydd yn helpu i sicrhau bod pobl yn derbyn cefnogaeth gyda cheisiadau a chymorth i herio'r system pan fo'n briodol. Mae cyngor ar ddyled yn rhan canolog o'r rhaglen ehangach o wneud y mwyaf o incwm ac mae'n fesur atal pwysig sydd yn gallu cefnogi pobl i leihau costau'r teulu trwy drafod cynlluniau ad-dalu realistig gyda chredydwyr etc.

3. Gwella llythrennedd ariannol
Mae darparu gwybodaeth gynhwysfawr ond clir i blant a phobl ifanc ar faterion ariannol yn gymorth i roi sgil gydol oes holl bwysig iddynt, yn ogystal â'r wybodaeth gywir a'r hyder i reoli eu materion ariannol pan yn oedolion. Mae sefydlu Uned Addysg Ariannol oddi mewn i Lywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gymorth i ddarparu a chydlynu cefnogaeth ar gyfer addysgu addysg ariannol mewn ysgolion ond nid yw rôl a chyllido'r Uned yn sicr ar ôl Ebrill 2011. Byddem yn annog bod rôl strategol yr Uned hon yn cael ei chynnal ac yn cael ei chynyddu dros y blynyddoedd nesaf i wella cyflwyniad addysg ariannol mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach.

4. Cael gafael ar gredyd
Mae nifer o rieni plant sydd yn byw mewn teuluoedd incwm isel yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond troi at fenthycwyr cost uchel i'w cynorthwyo i gael dau ben llinyn ynghyd neu i ymdopi gydag unrhyw gostau annisgwyl y gallant eu wynebu. Mae torri'r ddibyniaeth hon ar y sector credyd cost uchel yn her sylweddol. Mae'r hinsawdd ariannol gyfredol yn cynnig cyfleoedd sylweddol i hybu rôl bancio cymunedol yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gefnogi'r mudiad undebau credyd yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf, ac mae hynny i'w groesawu. Mae adeiladu cynaliadwyaeth i ymagweddau benthyg eraill, fel undebau credyd a Sefydliadau Ariannol Datblygu Cymunedol (CDFIs), ac mae codi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau hyn yn holl bwysig er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu benthyciadau bychain fforddiadwy, cyfleusterau cynilo a chynnyrch ariannol eraill sydd yn fwy priodol i anghenion ac amgylchiadau pobl sydd yn byw ar incwm isel.

5. Monitro effaith newidiadau i fudd-daliadau
O dderbyn y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU am newidiadau i fudd-daliadau, dylai Llywodraeth y Cynulliad nawr fonitro effaith y newidiadau hyn ar deuluoedd gyda phlant. Mae'n hanfodol bod y canlyniadau o'r cyhoeddiadau hyn yn cael eu mesur i sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn gwybod beth yw'r effaith a'i fod yn gallu lobïo ac ymgysylltu yn effeithiol gyda Gweinidogion y DU.

Gwledigrwydd

Galwad cyffredinol: mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr HAWL i beidio â bod dan anfantais oherwydd daearyddiaeth

1. Ymgorffori argymhellion adroddiad Tlodi Plant ac Eithrio Cymdeithasol yng Nghefn Gwlad Cymru Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru ym maniffestos y pleidiau

Gall plant a phobl ifanc o deuluoedd ar incwm isel mewn ardaloedd gwledig fod yn arbennig o ddifreintiedig. Roedd 13 o argymhellion yn adroddiad y Rhwydwaith i Lywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys

- Sicrhau bod pob dogfen bolisi yn cynnwys Tlodi Gwledig a Thlodi Plant a sicrhau bod cysylltiad rhwng y ddau weithgaredd hwn.
- Bod cysylltiadau strategol yn bodoli ar draws y gwahanol adrannau yn Llywodraeth y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros faterion gwledig – tai, trafnidiaeth, addysg, iechyd ac ati
- Sicrhau bod y sialensau penodol sydd yn wynebu plant a theuluoedd bregus mewn ardaloedd gwledig yn derbyn ystyriaeth ddyledus yn y Strategaeth Tlodi Plant diwygiedig ac mewn gweithgaredd polisi a rhaglen yn y dyfodol.

2. Mynd i'r afael â'r bwlch cyfathrebiadau

Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i weithio gyda phartneriaid lleol a darparwyr sector preifat i wella mynediad i fand eang a ffonau symudol mewn ardaloedd gwledig. Byddai hyn yn gymorth i liniaru eithrio cymdeithasol ymysg plant a phobl ifanc, cynorthwyo gyda dysgu ac addysg plant yn ogystal â gwella llwyddiant busnesau gwledig.

Addysg

Galwad cyffredinol: mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr HAWL i addysg o ansawdd da

1. Addysg gynhwysol
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod gan pob plentyn yr hawl i addysg gynhwysol o ansawdd sydd yn hyrwyddo eu ffyniant a'u datblygiad. Dylid datblygu set ehangach o ganlyniadau yn hytrach na chyflawniad academaidd yn unig i sicrhau bod plant yn derbyn y gefnogaeth gywir ar yr adeg cywir yn ystod eu profiad yn yr ysgol.

2. Mynd i'r afael gyda chanlyniadau addysgol a lleihau'r bwlch
Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i fuddsoddi mewn rhaglenni sydd yn ceisio mynd i'r afael â chanlyniadau addysgol gwael plant o gartrefi difreintiedig. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ddarparu arweiniad cryf i ddarparwyr addysg ar weithrediad y Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag anghyfartaledd addysgol a bod hynny'n gysylltiedig gyda'r agenda tlodi plant. Dylai torri'r cylch rhwng cyflawniad addysgol gwael a thlodi pan yn oedolion barhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys plant sydd yn derbyn gofal sydd fel rheol yn dioddef yn waeth o ran cyflawniad academaidd.

3. Gwella'r profiad o ysgol
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod y system addysg yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi a delio gydag anghenion cymdeithasol ac emosiynol y plant mwyaf bregus. Tra bod lefelau cyflawniad a chymwysterau yn bwysig ar gyfer dewisiadau bywyd yn y dyfodol, dylai plant a phobl ifanc brofi manteision eraill o gymryd rhan ym mywyd yr ysgol.

4. Mynd i'r afael â chost ychwanegol addysg
Dylid cael gwared ar bob rhwystr ariannol i addysg. Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod pob ysgol yn glynu at egwyddorion cyfle cyfartal a sicrhau nad oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm â gweithgareddau ac eitemau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer yr ysgol, fel polisïau gwisg ysgol costus, tripiau ysgol drud etc.

5. Ysgolion ar gyfer y gymuned
Dylai Llywodraeth y Cynulliad adeiladu ar y cynnydd a wnaethpwyd trwy'r rhaglen Ysgolion Bro a cheisio sicrhau bod pob ysgol yn darparu amrediad o weithgareddau ar ôl ysgol ar gyfer plant a theuluoedd nad ydynt yn eithrio teuluoedd ar incwm isel oherwydd eu cost.

6. Ymgysylltiad rhieni a Dysgu Gydol Oes
Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i weithio gyda phartneriaid lleol i sicrhau bod mentrau yn bodoli i annog a meithrin ymgysylltiad rhieni gydag addysg eu plant. Dylid cefnogi cyfleoedd i rieni ail gysylltu gydag addysg, trwy ysgolion a cholegau.

Tlodi Tanwydd

Galwad cyffredinol: Dylai pob plentyn yng Nghymru fwynhau yr HAWL i gartref cynnes, sydd wedi'i wresogi'n ddigonol ar gyfer iechyd a chyfforddusrwydd.

1. Integreiddio polisi i sicrhau nad oes yr un plentyn yn byw mewn tlodi tanwydd

Dylai Llywodraeth nesaf y Cynulliad sicrhau ei fod yn integreiddio gwaith ar dlodi plant a thlodi tanwydd. Mae angen i adrannau rannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd am gyflwyno'r canlyniad ar y cyd i sicrhau nad oes yr un plentyn yn byw mewn tlodi tanwydd. Yn aml mae gan deuluoedd sydd yn gorfod gwario rhan fawr o incwm y teulu ar gadw'n gynnes lai i'w wario ar rannau eraill o gyllideb y teulu. Gall hyn arwain at ddiet gwael neu lai o gyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden. Mae gan blant sydd yn byw mewn cartrefi cynnes 30% yn llai o salwch pan yn 3 oed a 20% yn llai o ddyddiau i ffwrdd o'r ysgol yn ystod plentyndod.

2. Gweithredu Siarter Tlodi Tanwydd Cymru yn llawn

Rhaid i Lywodraeth nesaf y Cynulliad weithredu galwadau Siarter Tlodi Tanwydd Cymru fel mater o frys a datblygu cynllun gweithredu newydd sydd yn amlygu pryd a sut y caiff tlodi tanwydd ei ddileu; ymagwedd gydlynol ac unedig a galluogi plant a theuluoedd i gadw'n gynnes hyd nes y bydd tlodi tanwydd wedi'i ddileu. Mae'r nifer o deuluoedd sydd yn dioddef tlodi tanwydd wedi mwy na dyblu yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae NEA Cymru yn nodi bod y broblem hon yn lledaenu a'i bod hefyd yn gwaethygu gyda rhagor o blant yn debygol o fod yn dioddef tlodi tanwydd difrifol.

3. Atal plant rhag dioddef oerni ac arbed arian i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Rhaid i Lywodraeth nesaf y Cynulliad ddatblygu cronfa argyfwng i helpu teuluoedd bregus sydd mewn perygl o ddioddef salwch yn berthynol i oerni os yw eu system wresogi yn torri yn ystod misoedd y gaeaf. Mae wedi'i brofi bod pob £1 sydd yn cael ei gwario ar wella gwresogi mewn 100,000 o gartrefi lle mae preswylwyr yn debygol o fod angen triniaeth oherwydd oerni eithafol, yn arbed dros £34 i'r GIG yn y 10 mlynedd dilynol. Byddai'r cyllid ychwanegol sydd ei angen ar gyfer y cynllun hwn yn fuddsoddiad i leihau costau'r GIG.

4. Mynd i'r afael ag anghenion teuluoedd tlawd sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig

Mae tlodi tanwydd yn broblem sydd yn effeithio ar bob rhan o Gymru, ond un o'r ffactorau sydd yn gwahaniaethu tlodi tanwydd oddi wrth mathau eraill o dlodi yw ei gyffredinolrwydd mewn ardaloedd gwledig. Nid yw nifer o gartrefi mewn ardaloedd gwledig wedi'u cysylltu gyda'r prif rwydwaith nwy ac maent yn cael eu hystyried yn gartrefi anodd i'w trin oherwydd bod y dull y cawsant eu hadeiladu yn golygu nad oes modd insiwleiddio waliau dwbl nag atig. Fel mater o gyfiawnder cymdeithasol credwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod cynlluniau fel Arbed ac Ynni'r Fro yn blaenoriaethu cartrefi y plant bregus hynny sydd yn byw mewn cartrefi gwledig sydd mewn tlodi tanwydd.

Cefnogaeth Teulu a Rhianta

Galwad cyffredinol: mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr HAWL i gefnogaeth

1. Rhagor o ganolbwyntio ar raglenni Ymyrraeth Gynnar
Mae angen symudiad radical mewn polisi ar ymyrraeth cynnar sydd yn gallu torri'r cylch rhyng genhedlaeth o dlodi ac amddifadedd. Profwyd fod ymyrraeth gynnar yn fwy cost effeithiol ac yn fwy llwyddiannus yn yr hir dymor na dibyniaeth ar wasanaethau ymyrraeth hwyr costus.

2. Gwasanaethau wedi'u targedu, yn seiliedig ar dystiolaeth
Mae angen targedu rhaglenni cefnogaeth teulu a rhianta yn effeithiol er mwyn helpu i sicrhau bod nifer o deuluoedd sydd wedi bod yn anodd i ymgysylltu â nhw, neu sydd wedi bod yn amharod i ymgysylltu yn gallu cael gafael ar ystod eang o wasanaethau integredig yn y gymuned y gallant ymddiried ynddynt. Mae cefnogaeth lwyr i ymrwymiad Llywodraeth bresennol y Cynulliad i wasanaethau'n seiliedig ar dystiolaeth a dylid eu cadw a'u cyllido. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad adolygu'n ofalus effaith y rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf ac ni ddylai symud tuag at fodel sydd yn canolbwyntio ar y teulu fod ar draul ymagwedd yn seiliedig ar hawliau'r plentyn.

3. Rhianta
Dylai polisïau cefnogi teulu gymryd i ystyriaeth anghenion a hawliau plant fel unigolion bob amser, gan nad yw sefyllfa'r teulu bob amser yr un gorau ar gyfer diogelwch a lles y plentyn.

4. Gofal Plant
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod darpariaeth ddigonol o gefnogaeth gofal plant fforddiadwy, hygyrch, hyblyg a safonol ar draws Cymru fel bod rhieni yn gallu dychwelyd i'r farchnad lafur neu gychwyn yn y farchnad lafur am y tro cyntaf a darparu amgylchedd anogol a llawn gofal i gefnogi datblygiad y plentyn. Nid yw'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflwyno Tlodi Plant drafft yn darparu cynllun credadwy ar gyfer mynd i'r afael â'r diffyg difrifol o ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru. Ni ddylai rhieni a gofalwyr gael eu gorfodi i gyflogaeth os nad oes ganddynt y gefnogaeth i wneud hynny neu os nad oes ganddynt y modd o gael gofal plant gweddus a fforddiadwy. Gall hyn olygu bod rhieni yn cael eu gorfodi i ddibynnu ar ofal plant annigonol neu i adael plant gartref ar eu pennau'u hunain cyn iddynt fod yn gallu ymdopi yn emosiynol neu yn ymarferol i wneud hynny gan arwain at ganlyniadau difrifol o ran diogelwch a lles plant. Rhaid i ddarpariaeth gofal plant ganolbwyntio'n glir ar anghenion y plentyn.

O fewn cyd-destun y prinder cyffredinol o ddarpariaeth gofal plant fforddiadwy mae rhai rhieni yn wynebu rhwystrau ychwanegol; mae angen gofal plant arbenigol, yn enwedig i blant anabl, yn ychwanegol at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac yn ystod gwyliau ysgol, yn ogystal ag ar gyfer plant yn hanner uchaf yr ysgol gynradd a hanner isaf yr ysgol uwchradd lle mae bylchau neilltuol ar hyn o bryd.

Diogelu ac Amddiffyn Plant

Galwad cyffredinol: Mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr HAWL i fod yn ddiogel

1. Mynd i'r afael â materion amddiffyn plant
Mae tlodi yn effeithio ar bob agwedd o fywydau plant a dylai unrhyw waith a wneir ar leihau anghyfartaleddau hefyd gymryd i ystyriaeth faterion fel diogelu ac amddiffyn plant. Mae rhoi terfyn ar dlodi plant yn golygu mynd i'r afael â phroblem diffyg gweithgaredd economaidd hir dymor. Ond nid ydym yn credu y dylid gwneud hyn ar draul lles a diogelwch y plentyn.

2. Iechyd a Lles
Dylai unrhyw strategaeth i wella iechyd a lles plant sydd yn byw mewn tlodi fynd i'r afael â materion diogelwch a cham-drin plant. Mae gan blant sydd yn cael eu cam-drin ganlyniadau sylweddol is nag eraill, sydd yn eu gwneud yn fwy bregus o ran tlodi yn nes ymlaen yn eu bywydau. Mae diogelu plant felly yn cyfrannu tuag at eu codi o dlodi yn y dyfodol.

3. Gwasanaethau therapiwtig i blant bregus
Dylid cael gwell darpariaeth o wasanaethau therapiwtig i grwpiau neilltuol o blant bregus, fel plant sydd yn derbyn gofal a rhai'n gadael gofal i'w galluogi i oresgyn y camdriniaeth a'r esgeulustod y mae'r plant hyn wedi'i brofi. Mae angen buddsoddi mewn gwasanaethau sydd yn cefnogi plant a phobl ifanc yn y system gofal sydd wedi profi trawma a thrallod emosiynol, yn enwedig mewn gwasanaethau therapiwtig ac iechyd meddwl. Dylid ymestyn hyn i bob grŵp o blant a phobl ifanc yn cynnwys ceiswyr lloches a'r rhai sydd ag anableddau a byddai'n arwain at well canlyniadau yn ystod eu cyfnod mewn gofal.

Chwarae

Galwad cyffredinol: Mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr HAWL i chwarae

1. Gweithrediad y dyletswydd
Yng ngoleuni pwysigrwydd mynediad i gyfleoedd chwarae a hamdden o ran datblygiad gwybyddol a chymdeithasol a lles emosiynol plant a phobl ifanc mae'n holl bwysig bod y dyletswydd o dan y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn cael ei weithredu'n gywir a bod adnoddau ar gael ar ei gyfer. Rhaid craffu'n gadarn ar y datblygiadau i ddiwallu'r dyletswydd hwn ac mae angen gweithredu i sicrhau nad yw mynediad i chwarae yn dioddef oherwydd y pwysau ariannol cyfredol sydd yn wynebu awdurdodau lleol.

Blynyddoedd Cynnar

Galwad cyffredinol: mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr HAWL i'r cychwyn gorau mewn bywyd

1. Rhaglenni cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol blynyddoedd cynnar
Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i gefnogi a buddsoddi yn y rhaglen Dechrau'n Deg a pharhau gyda'i ymrwymiad i gyllido pedwar maes y rhaglen yn llawn ar gyfer pob plentyn. Ni ddylai hawl pobl plentyn gael ei erydu ac ni ddylid gwanhau'r rhaglen mewn unrhyw ffordd. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ymchwilio hefyd i ffyrdd o ymestyn hawl i deuluoedd tlotaf er mwyn mynd y tu hwnt i'r dalgylchoedd presennol.

Dylai Llywodraeth y Cynulliad hefyd ymchwilio i ffyrdd o sicrhau cynaliadwyaeth Canolfannau Integredig i Blant yng Nghymru. Tra bod cryn gynnydd wedi'i wneud mewn sefydlu'r rhain fel canolfannau rhagoriaeth, nid yw'r ymrwymiad i gyllido natur integredig y ddarpariaeth hon yn sicr. Dylai Llywodraeth y Cynulliad fod yn glir ynglŷn â datblygiad model y Canolfannau yn y dyfodol a chyhoeddi canllaw i alluogi Canolfannau i ddilyn ymagweddau cyffredin ac felly i weithio'n fwy effeithiol.

2. Gwasanaethau cyffredinol i rieni plant 0-3 oed
Dylai rhaglenni a gwasanaethau cefnogaeth i rieni plant 0-3 oed fod ar gael yn fwy cyffredinol i sicrhau bod plant ifanc yn derbyn yr anogaeth a'r ymatebolrwydd i ffynnu a bod rhieni yn gallu cael gafael ar y sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi datblygiad eu plentyn yn effeithiol. Dylai manteision addysg cyn oedran ysgol am ddim i blant dwy oed, fel a gyflwynir mewn rhannau o Gymru, fod yn destun monitro a gwerthuso gyda golwg ar ymestyn yr hawl hwn.

Gallai adolygiad o wasanaethau ar ôl geni yng Nghymru helpu i lywio datblygiad ac ymrwymiad i sicrhau bod rhieni yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel.

Monitro a gwerthuso

Galwad cyffredinol: Rhaid cryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd ar dlodi plant. Dylid canolbwyntio ar ganlyniadau mesuradwy i blant sydd yn byw mewn tlodi, targedau a fframwaith werthuso glir o dan pob maes polisi thematig.

1. Rhaid cryfhau casglu data monitro a gwerthuso cynnydd ar dlodi plant yn genedlaethol
Mae angen adolygu'r dystiolaeth gwerthuso a ddefnyddir ar hyn o bryd i fonitro rhaglenni a mentrau yn berthynol i dlodi plant ynghyd ag adolygiad o fframweithiau monitro a gwerthuso sydd eisoes yn bodoli a'r data y maent yn ei gynhyrchu. Rhaid i gasglu data i ddibenion monitro a gwerthuso fod yn gadarn ac yn dryloyw ar draws pob rhaglen a menter. Dylid cyflwyno a gorfodi eglurder, ymagwedd mwy cydgysylltiedig a safon ansawdd.

2. Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn cefnogi'r angen am "adolygiad gwerthusol cadarn o ganlyniadau rhaglenni gwrth dlodi cyfredol yng Nghymru" fel y nodir yn 13.1 o'r Strategaeth Tlodi Plant
Mae angen adolygiad cynhwysfawr o ganlyniadau ymyriadau gwrth dlodi cyfredol i ddarparu tystiolaeth i ategu penderfyniadau ar beth a fydd y meysydd allweddol o ffocws ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant ac i osod data llinell sylfaen yn erbyn yr hyn sydd i'w fonitro a'i werthuso. Rhaid i bob cynllunio/ datblygu polisi, strategaeth, rhaglen gan Lywodraeth y Cymru adeiladu ar ddata, ymchwil a dadansoddiad sydd eisoes yn bodoli. Mae plant a phobl ifanc sydd yn dioddef tlodi mewn sefyllfa dda i gefnogi newidiadau polisi sydd yn cael effaith gwirioneddol ar leihau tlodi. Mae angen cydnabod ymagwedd yn seiliedig ar atebion tuag at gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn mynd i'r afael â thlodi, a rôl i blant a phobl ifanc mewn cyflwyno a monitro'r strategaeth.

3. Dylid chwilio am ddangosyddion newydd i ddelio gyda meysydd allweddol y mae plant a phobl ifanc yn dioddef tlodi ynddynt nad ydynt wedi'u cynrychioli na'u targedu'n dda hyd yn hyn
Rhaid llenwi'r bylchau mewn tystiolaeth gwerthusiadau'n berthynol i dlodi plant. Ar hyn o bryd nid yw'r dangosyddion tlodi plant craidd na'r casglu data cyfatebol yn adlewyrchu'n llawn natur holistaidd tlodi plant. Mae bylchau sylweddol yn cynnwys er enghraifft, sut y mae plant a phobl ifanc yn teimlo a sut y maent yn profi tlodi. Mae angen dangosyddion (a dulliau o gasglu a mesur y data) sydd yn adlewyrchu'r rhain. Bydd cynnwys dangosyddion ychwanegol yn berthynol i dlodi plant a nodwyd o dystiolaeth gwerthusiadau cyfredol o ganlyniad i adolygiad cynhwysfawr yn creu set mwy holistaidd o ddangosyddion tlodi plant.

4. Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod mecanweithiau atebolrwydd yn dryloyw trwy gyhoeddi adroddiadau gwerthuso rheolaidd a hygyrch. Rhaid i hyn gynnwys adolygu ac adrodd ar ddata cyllidebu plant
Mae angen casglu a chyhoeddi data tryloyw ar wariant ar blant. Dylid cysylltu hyn gyda strategaeth a cynllun cyflwyno tlodi plant Cymru ac yna gwerthuso/dadansoddi yn ei erbyn i ddangos: ble mae angen yr arian, i ble mae'n mynd mewn gwirionedd a beth y mae hyn yn ei olygu i blant sydd yn byw mewn tlodi. Bydd yr ymagwedd hon yn annog datblygu dangosyddion i fonitro a yw gwariant yn cyrraedd y plant a'r teuluoedd tlotaf, ac a ydynt yn elwa oddi wrth hynny. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r cylch nesaf o ddyraniadau cyllideb.

5. Mesur ac olrhain anghyfartaledd canlyniadau ar draws grwpiau cymdeithasol economaidd o blant a phobl ifanc ar draws Cymru
Mae lleihau anghyfartaleddau canlyniadau sydd yn bodoli rhwng y plant tlotaf a'u cyfoedion o fewn themâu allweddol yn berthynol i dlodi fel tai, addysg ac iechyd yn allweddol i frwydro yn erbyn tlodi plant. Ni chaiff hyn ei gyflawni oni bai bod targedau a monitro yn canolbwyntio ar fesur cynnydd yn hyn o beth. Mae'r Rhwydwaith yn galw am weithredu fframweithiau Monitro a Gwerthuso effeithiol a chryf i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni. Byddem yn annog Llywodraeth y Cynulliad i fuddsoddi mewn cynyddu maint sampl FRS/HBAI oherwydd y data gwerthfawr y mae'n ei gynhyrchu; bydd hyn yn ein helpu i ddeall yn well beth yw realiti, dyfnder a lled tlodi plant yn ogystal â darparu dull ychwanegol o fesur cynnydd yn erbyn y gwaith o fynd i'r afael ag ef.